# Brechlyn Hib/ MenC rhwng 12 a 13 mis oed



Mae'r daflen hon yn dweud wrthych bob dim am frechlyn Hib/MenC, sy'n amddiffyn rhag dau glefyd a achosir gan *Haemophilus influenzae* math b (Hib) a heintiau Meningococol C (MenC).



## Meningococol C

Gall bacteria MenC (meningococol grŵp C) achosi llid yr ymennydd (haint ar leinin yr ymennydd) a septisemia (gwenwyniad gwaed). Mae llid yr ymennydd a septisemia ill dau yn ddifrifol iawn, a gallant achosi anabledd parhaol a marwolaeth os na chânt eu trin yn gyflym. Mae brechlyn MenC yn amddiffyn yn erbyn un o'r achosion, haint meningococol C. Ers i frechlyn MenC gael ei gyflwyno ym 1999 bu gostyngiad o fwy na 95% yn yr achosion o'r clefyd a achosir gan meningococol grŵp C. Mae'r bacteria meningococol yn cael eu cario yng nghefn y gwddf ac yn cael eu lledaenu drwy gyswllt agos dros gyfnod hir. Mae'r ffyrdd y gall y bacteria ledaenu yn cynnwys tisian, pesychu, cusanu a rhannu eiddo personol.

## Hib


Haint yw clefyd Hib (*Haemophilus influenzae* math b) a achosir gan facteria. Mae'n gallu arwain at nifer o afiechydon difrifol megis gwenwyniad gwaed (septisemia), haint ar yr



Cyhoeddwyd Ebrill 2016

ysgyfaint (niwmonia) a llid yr ymennydd (haint ar leinin yr ymennydd). Gall yr afiechydon y mae Hib yn eu hachosi ladd os na chânt eu trin yn gyflym. Cyn i frechlyn Hib gael ei gyflwyno roedd oddeutu 800 o achosion o Hib mewn plant bach bob blwyddyn yn y DU. Ers i’r brechlyn gael ei gyflwyno, mae nifer y plant dan bum mlwydd oed sydd â Hib wedi gostwng 99%. Mae modd i’r bacteria gael ei ledaenu yn yr aer oddi wrth beswch a thisian pobl eraill. Nid yw brechlyn Hib yn amddiffyn ond yn erbyn y math o lid yr ymennydd (meningitis) a achosir gan facteria *Haemophilus influenzae* math b; nid yw’n amddiffyn yn erbyn mathau eraill o lid yr ymennydd ac felly mae’n dal yn angenrheidiol i chi wybod am yr arwyddion a’r symptomau;

## Babanod a Phlant Bach




©Meningitis Now

## Plant ac Oedolion



©Meningitis Now

## Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn amau llid yr ymennydd?

Os bydd un neu ragor o’r symptomau a ddisgrifir uchod yn datblygu, gofynnwch am gymorth meddygol ar frys. Os nad ydych chi’n gallu cysylltu â’ch meddyg, neu os ydych chi’n dal i bryderu wedi ichi dderbyn cyngor, dilynwch eich greddf ac ewch â’ch plentyn i adran ddamweiniau ac argyfwng eich ysbyty agosaf.

## Y prawf gwydr

Pwyswch ochr gwydr yfed yn gadarn yn erbyn y frech, fel y medrwch weld os yw’r frech yn pylu ac yn colli lliw dan bwysau. Os nad yw’n newid lliw ac os yw eich plentyn yn sâl, cysylltwch â’ch meddyg ar unwaith.



## Pryd bydd y brechlyn Hib/MenC yn cael ei gynnig?

Cynigir y brechlyn hwn i blant rhwng 12 a 13 mis oed.

## Sut bydda i'n gwybod ei bod yn bryd i fy mhlentyn gael ei imiwneiddio?

Anfonir apwyntiad i blant i ddod am eu brechlyn Hib/MenC arferol pan fyddant yr oed priodol. Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd a chanolfannau iechyd yn rhedeg clinigau imiwneiddio neu glinigau babanod arbennig.

## Beth sy'n digwydd yn yr apwyntiad?

Bydd y nyrs neu'r meddyg yn egluro pam mae angen yr imiwneiddiadau ac yn ateb eich cwestiynau. Mewn plant dros 12 mis oed rhoddir pigiadau fel rheol yn rhan uchaf y fraich.

## Fydd modd rhoi'r brechlyn os bydd fy mhlentyn yn sâl ar ddiwrnod yr apwyntiad?

Os mai salwch bach, heb dwymyn, sydd gan eich plentyn, megis annwyd, dylai gael ei imiwneiddiadau yn ôl yr arfer. Os yw eich plentyn yn sâl ac os oes ganddo dwymyn ar y diwrnod y mae i fod i gael ei imiwneiddio, gohiriwch yr imiwneiddiadau nes y bydd wedi gwella.



## Oes yna unrhyw resymau eraill pam na ddylid rhoi'r brechlyn?

Ychydig iawn o resymau sydd yna pam na ellir rhoi'r brechlyn Hib/MenC. Ni ddylid rhoi'r brechlyn hwn i unrhyw un sydd wedi cael adwaith difrifol (bygythiad i fywyd) i ddos flaenorol o'r brechlyn neu unrhyw gynhwysyn yn y brechlyn.

Os oes gan eich plentyn:

- anhwylder y gwaed (er enghraifft, haemoffilia, pan nad yw gwaed y plentyn yn ceulo yn iawn), neu
- os yw wedi cael ffit nad yw'n gysylltiedig â thwymyn

siaradwch â'ch meddyg, nyrs y practis neu'r ymwelydd iechyd cyn i'ch plentyn gael unrhyw imiwneiddiad.

## Beth os byddaf yn colli'r apwyntiad?

Dylech ganslo apwyntiad ymlaen llaw os na fyddwch yn medru bod yno. Os byddwch yn colli'r apwyntiad neu os bydd rhaid i chi ohirio'r imiwneiddiad, gwnewch apwyntiad newydd cyn gynted ag y bo modd. Gan amlaf, gellir dal i roi'r imiwneiddiadau.

*Cofiwch ei bod hi'n bwysig dal i fyny ar y rhan fwyaf o imiwneddiadau a gollwyd. Os bydd eich plentyn wedi colli imiwneiddiad ac os yw'n hŷn na'r oed a argymhellir, siaradwch â'ch meddyg teulu, nyrs y practis neu'r ymwelydd iechyd.*

## A yw'r brechlyn yn achosi unrhyw sgil-effeithiau?

Mae miliynau lawer o ddosiau o'r brechlyn wedi cael eu defnyddio ac mae ei record diogelwch yn dda iawn. Gall plant weithiau gael coes neu fraich boenus lle cafodd y pigiad ei roi. Efallai y bydd rhai yn datblygu lwmp bychan lle y cafodd y nodwydd ei rhoi i mewn; mae hyn yn normal ac efallai y bydd yn para am rai wythnosau. Nid oes angen triniaeth ar gyfer hyn. Efallai hefyd y cânt dymheredd uwch (twymyn) dros 37.5°C, hwyrach y byddant yn ymddangos yn aflonydd ac efallai na fydd arnynt eisiau llawer o fwyd. Os oes gan eich plentyn wres uchel ac os yw'n ymddangos yn sâl, gellir rhoi hylif paracetamol iddo. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y botel yn ofalus a rhowch y cryfder a'r ddos gywir i'ch plentyn ar gyfer ei oedran.

*Os byddwch yn poeni am eich plentyn ar ôl yr imiwneiddiad, dylech siarad â'ch ymwelydd iechyd, eich meddyg neu nyrs y practis neu ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647 neu ymweld â* **www.nhsdirect.wales.nhs.uk/**.

Mae modd i aelodau o'r cyhoedd roi gwybod am sgil effeithiau tybiedig brechlynnau a meddyginiaethau drwy gynllun y Cerdyn Melyn. Gellir gwneud hyn drwy ymweld â **www.yellowcard.gov.uk** neu drwy ffonio llinell gymorth y Cerdyn Melyn ar **0808 100 3352** (sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 10.00 – 14.00).

# Ble gallaf i gael rhagor o wybodaeth?

Gellwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y brechlynnau a ddefnyddir gan gynnwys cyhwysion brechlyn a'r sgil effeithiau posibl yn **www.medicines.org.uk/emc/** drwy roi enw'r brechlyn yn y blwch chwilio ac edrych ar y daflen wybodaeth i gleifion (PIL). Y brechlyn a ddefnyddir ar hyn o bryd yw Menitorix®.

Mae'r drefn imiwneiddio arferol sy'n dangos i chi pa frechlynnau a gynigir yng Nghymru ar gael yn **www.publichealthwales.org/routine-immunisation-schedule-wales**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os oes arnoch eisiau rhagor o wybodaeth, siaradwch â'ch meddyg neu nyrs neu ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647 neu ymwelwch â **www.nhsdirect.wales.nhs.uk/**

I archebu rhagor o gopïau o'r daflen hon, anfonwch neges e-bost i: **hplibrary@wales.nhs.uk** neu ffoniwch 08456 064050.

## Cynhyrchir y daflen hon gan:

Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy
Iechyd Cyhoeddus Cymru.

OGL © Hawlfraint y Goron 2016
WG27141
ISBN digidol 978 1 4734 5539 9 ISBN argraffu 978 1 4734 5537 5